

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Julie Morgan AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JMSS/00128/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

15 Mawrth 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr ar 14 Chwefror yn croesawu'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddileu'r rhwystrau ar gyfer myfyrwyr gwaith cymdeithasol ac yn ceisio eglurder o ran sut y byddwn yn sicrhau cyllid ar gyfer hyfforddiant gwaith cymdeithasol sydd gyfwerth â'r hyn a ddarperir ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol.

Yn fuan, byddwn yn gosod gerbron y Senedd y rheoliadau angenrheidiol i wneud y newidiadau a fydd yn caniatáu i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol ôl-radd gael cymorth ychwanegol gan Gyllid Myfyrwyr Cymru. Os bydd popeth yn mynd yn iawn, disgwylwn y daw'r rhain i rym ym mis Mai. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr ôl-radd, sy'n cael y bwrsari gan Gofal Cymdeithasol Cymru, i gael mynediad at gyllid atodol drwy Gyllid Myfyrwyr Cymru ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23. Drwy weithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, mae Llywodraeth Cymru'n parhau i ddatblygu ein hopsiynau ehangach mewn perthynas â'r cyllid a natur yr hyfforddiant gwaith cymdeithasol i helpu i ddiwallu'r galw ar gyfer gweithlu'r dyfodol. Er ei bod yn anodd rhoi amserlen benodol ar hyn o bryd ar gyfer datblygu'r gwaith uchod, rwy'n disgwyl cael cyngor pellach gan fy swyddogion yn y misoedd nesaf. Peth arall pwysig yma yw'r cynllun gweithlu gwaith cymdeithasol y mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi ei ddatblygu gan weithio'n agos gyda rhanddeiliaid yn y sector. Bydd hwn yn cael ei gyhoeddi yn y gwanwyn.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,



Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services



Julie Morgan AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services